

CYPE(5)-24-19 - Papur i'w nodi 8

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA-P/JM/2857/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Awst 2019

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Gorffennaf ynghylch Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am Hawliau Plant yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at drafod y cynnydd a wnaed ar hawliau plant pan fyddaf yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd.

Fe wnaethoch ofyn yn eich llythyr am ddiweddariad yn nodi pryd y byddai'r Cynllun diwygiedig ar Hawliau Plant yn cael ei gyhoeddi er mwyn ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae fy swyddogion wrthi'n gweithio gyda'r sector plant, gan gynnwys ein grŵp o randdeiliaid arbenigol, y Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant¹, ar ddogfen ddiwygiedig. Byddwn yn trafod y drafft diweddaraf o'r Cynllun Hawliau Plant yn ein cyfarfod nesaf gyda'r Grŵp Cynghori ar 11 Medi 2019. Yn sgil y cyfarfod hwn, byddwn yn symud ymlaen i gynnal proses ymgynghori, gan dargedu plant a phobl ifanc hefyd, gyda'r bwriad o ddod i gytundeb ynghylch y Cynllun newydd yn ystod gwanwyn 2020.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth yma yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Edrychaf ymlaen at drafod y fersiwn ddrafft o'r Cynllun Hawliau Plant, yn rhan o'n gwaith o hyrwyddo ac ymgorffori hawliau plant, gyda'r Pwyllgor ym mis Tachwedd.

Yn gywir,

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

¹ Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio ar y cyd â nifer o sefydliadau sy'n allweddol o ran eu harbenigedd a'u cyngor ar roi ar waith y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a sut y gellir sicrhau bod hawliau dynol plant yn cael eu rhoi ar waith yn well yng Nghymru. Aelodau sefydlog y Grŵp Cynghori yw'r Is-adran Plant a Theuluoedd (Llywodraeth Cymru), Plant yng Nghymru, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant ac UNICEF.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.